Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd

New Street
Glyn-nedd
Castell-nedd
SA11 5AG

Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 129 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 93 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 22 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 22.9%) | 20.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 11.1%) | 8.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/06/2019 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn lle diogel, cartrefol, hapus a gofalgar, lle mae staff a disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fyddant am siarad â rhywun am eu gofidiau. Mae staff yn helpu disgyblion i setlo'n gyflym wrth ddechrau'r ysgol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd pan ddaw'r amser.

Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth ac arweinwyr eraill yn hynod drefnus ac yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella dysgu a lles disgyblion ac am iddynt fod yn falch o'u cymuned ac yn awyddus i ddysgu trwy gydol eu hoes, gan wneud eu gorau glas. Mae arweinwyr yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda yn yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wella, ac maent yn gwneud gwelliannau yn llwyddiannus.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chyffrous ac yn addysgu disgyblion am eu cymuned a'i lle o fewn Cymru a'r byd. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol, gydag athrawon a chynorthwywyr yn paratoi tasgau a phrofiadau diddorol sy'n eu helpu i fod yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad i ddulliau addysgu llwyddiannus yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, eu cymhwysedd digidol a'u medrau ehangach. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a staff yn eu hannog i siarad yr iaith yn gyson, mae ychydig yn aml yn troi i siarad Saesneg yn y dosbarth ac ar adegau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn mathemateg a rhifedd ond nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfleoedd i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd 'go iawn' mewn agweddau eraill o'r cwricwlwm.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gartrefol, hapus a gofalgar, lle mae bron bob un, yn staff neu’n ddisgyblion, yn ymddwyn yn barchus ac yn trin ei gilydd yn deg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cadarn o ddiogelu disgyblion ac mae ei threfniadau ar gyfer hyn yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae staff yn hyrwyddo a monitro presenoldeb disgyblion yn hynod drefnus ac effeithiol.

Mae’r pennaeth, gyda chefnogaeth gref y dirprwy bennaeth ac arweinwyr eraill, yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn ac yn gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain. Maent yn datblygu diwylliant cefnogol, ethos cartrefol a chynhwysol a chyfeiriad strategol effeithiol sy’n canolbwyntio’n llwyddiannus ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae ganddynt weledigaeth glir i geisio sicrhau bod gan bob disgybl y medrau sydd eu hangen arnynt i barhau â’u taith ddysgu ar hyd eu hoes. Maent yn eu cymell i gredu yn eu hunain er mwyn llwyddo a chyflawni’n uchel. Trwy gydweithio’n agos â’r gymuned leol, mae staff yn annog disgyblion i fod yn hyderus, yn annibynnol ac yn falch o’u treftadaeth, eu milltir sgwâr, a Chymru.

Seilir y cwricwlwm yn gadarn ar y gymuned leol a’i lle o fewn Cymru a’r byd ehangach. Mae’r gweithgareddau dysgu sy’n deillio ohoni yn eang ac yn darparu dyfnder addas wrth ddatblygu medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion ar draws pob un o’r meysydd dysgu a phrofiad. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau diddorol sy’n ysbrydoli disgyblion i fod yn awyddus i ddysgu. Maent yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gadarn ac yn codi eu hymwybyddiaeth o bobl sy’n llai ffodus na nhw yn fwriadus, tra’n eu hannog i lwyddo yn yr hyn maent yn ei wneud.

Mae’r ysgol yn cyfoethogi’r cwricwlwm ymhellach drwy ddarparu cyfleoedd diddorol i ymwelwyr drafod eu profiadau gyda disgyblion ynghyd â threfnu ymweliadau iddynt i fannau penodol. Er enghraifft, gwahoddwyd rhai o ddisgyblion cyntaf yr ysgol i rannu eu hatgofion o’u cyfnod yno wrth ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn 70 oed. Mae disgyblion hŷn hefyd wedi ymweld â’r Senedd yng Nghaerdydd i ddysgu mwy am y drefn ddemocrataidd. Mae hyn yn eu paratoi i fod yn gyfranwyr cyfrifol o fewn eu cymdeithas.

Mae athrawon yn adnabod anghenion penodol disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gynnar ac yn cydlynu cymorth effeithiol iddynt. Mae cynorthwywyr medrus yn cefnogi dysgu disgyblion yn hynod effeithiol i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau’n dda â’u tasgau ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus. Mae athrawon a

chynorthwywyr yn cyflwyno'r lefel briodol o her a chymorth i bron bob un, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY a'r rheini y gallai tlodi gael effaith andwyol arnynt. Maent yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn fwriadus yn ystod sesiynau dysgu a thros gyfnod. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a'u medrau iaith a llythrennedd yn gadarn yn y Gymraeg a Saesneg. Maent hefyd yn adeiladu'n dda ar eu cymhwysedd digidol. Mae hyn yn eu galluogi i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i wneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, ac  oedolion yn gwneud eu gorau i'w hannog i siarad yr iaith yn gyson, mae gan ychydig dueddiad i droi i'r Saesneg yn aml. Er bod gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i'w cymhwyso mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm.

Mae disgwyliadau uchel gan athrawon o'u disgyblion ac maent yn darparu tasgau â lefel briodol o her iddynt. Mae athrawon a chynorthwywyr yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion ar safon eu gwaith ac yn rhoi cyfleoedd priodol iddynt ymateb iddynt. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae disgyblion yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cael cyfleoedd rheolaidd i weithredu ar y gwahanol gynghorau llais y disgybl. Er enghraifft, ar ôl sylweddoli bod angen annog eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn rheolaidd, mae'r Criw Cymraeg wedi dyfeisio sbardun i'w gwobrwyo am wneud hynny ar adegau anffurfiol.

Mae disgyblion yn elwa'n dda ar drefniadau pontio wrth iddynt symud o un cyfnod dysgu i'r llall. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas gadarn â'r cylch meithrin sydd wedi ei leoli ar dir yr ysgol. Mae staff y ddau leoliad yn cynnal sesiynau canu a gweithgareddau corfforol ar y cyd, sy'n paratoi'r plant yn dda at gychwyn yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn edrych ymlaen at drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ar ôl cael gwersi gwyddoniaeth, ieithoedd modern ac addysg gorfforol yno.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drefnus ac effeithiol, gan nodi'n glir y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ystyried deilliannau ei phrosesau hunanwerthuso yn rheolaidd i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o wneud gwelliannau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, maent wedi codi safonau darllen disgyblion a gwella cyfraddau presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae arweinwyr yn cynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, maent wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar hyfforddi staff i ddefnyddio amrywiol ddulliau i addysgu darllen. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn effeithiol i ddathlu arfer dda, gwella'u harfer ac i fynd i'r afael â thanberfformio, lle bo angen. Maent yn hyrwyddo blaenoriaethau

cenedlaethol fel gwella addysgu, dathlu Cymreictod, a mynd i'r afael ag effaith tlodi yn hynod effeithiol.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau fel ffrindiau beirniadol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth glir o'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r materion sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn ddarbodus ac yn monitro gwariant yn effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025